LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cofnodion Sesiwn Agored

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

2 Mehefin 2023

Presennol:

Aelodau:

Ashok Ahir (Llywydd)	Gronw Percy (Trysorydd)
Andrew Evans (Is-lywydd)	Anwen Jones
Lee Yale-Helms	Lydia Rumsey
Janet Wademan	Carl Williams
Quentin Howard	Hannah Lindsay
Susan Davies	

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol
Rhian Gibson	Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau

Hefyd yn Bresennol:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol

Cofnodion:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethu a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Sylwedyddion:

Manon Maragakis	Llywodraeth Cymru

1.1 Gair o Groeso gan y Cadeirydd, Sylwadau Agoriadol ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan estyn croeso yn ôl i Lee Yale-Helms oedd yn cychwyn ei dymor fel Ymddiriedolwr am ddwy flynedd o'r 1 Mehefin. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i Emyr Evans, Pennaeth Dros Dro'r Adran Gyllid.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Hay, Gwenllian Lansdown Davies, Elaine Treharne, Mike Cavanagh a David Michael.

1.2 Datgan Buddiannau sy'n Berthnasol i'r Agenda

Datganodd Aelodau'r Tîm Gweithredol, Clerc y Bwrdd a'r Rheolwr Adnoddau Dynol fuddiant yn y drafodaeth ar y cynllun pensiwn fel aelodau gweithredol o'r cynllun hwnnw.

1.3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2023 a thrafodaeth ar faterion yn codi

Derbyniwyd y cofnodion yn amodol ar y newidiadau canlynol;

i) nid oedd Elin Royles yn bresennol yn y cyfarfod ar 31 Mawrth 2023
ii) o dan 5.3, cynnwys cymal i ddweud fod arolwg dwfn o gyflwr yr adeilad yn mynd i gael ei gomisiynu, a bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Panel Adeiladau yn y lle cyntaf
iii) o dan 3.1, angen cynnwys cymal i ddweud nad oedd y Strategaeth Addysg yn ddigon uchelgeisiol, a bod angen mynd i'r afael â hynny yn y ddogfen

Nodwyd bod Rhian Gibson ac Owen Llywelyn wedi gweithio ymhellach ar y Strategaeth i'w gwneud yn fwy uchelgeisiol, ac awgrymwyd y dylent gyfarfod gyda Susan Davies i drafod y gwaith ychwanegol hwn.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei adroddiad, gan ychwanegu'r canlynol;

Gŵyl y Gelli - cafwyd cyflwyniad gan Peter Lord a Rhian Davies ar gasgliadau celf a cherddoriaeth y Llyfrgell ar ddydd Mercher yr ŵyl, a chafwyd adborth arbennig i'r cyflwyniad. Bu'r Prif Weithredwr yn sgwrsio gyda'r Dirprwy Weinidog, Dawn Bowden, a Julie Finch, Prif Weithredwr yr ŵyl, ac mae wedi ei gwahodd i'r Llyfrgell i drafod ein perthynas gyda Gŵyl y Gelli.

Dathlu pen-blwydd - Roedd yn bleser cael croesawu'r Farwnes Kay Andrews, cyn Cadeirydd Pwyllgor Cymru o'r Loteri Genedlaethol, a Manon Antoniazzi i'r Llyfrgell ar 30 Mai; roedd y Farwnes yn dathlu ei phen-blwydd yn 80, a'i dymuniad oedd ymweld â'r Llyfrgell i weld eitemau o ddiddordeb iddi yn ein casgliadau.

Eisteddfod yr Urdd – bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymweld â stondin y Llyfrgell ar faes yr Eisteddfod ddydd Mawrth diwethaf a chafodd ddiweddariad ar ein gwaith addysg ac ymgysylltu. Roedd hefyd yn awyddus iawn i wybod mwy am waith y Llyfrgell yn gyffredinol.

Streic genedlaethol - mae undebau Prospect a PCS yn genedlaethol ym mynd ar streic ar 7 Mehefin, ac mi fydd PCS hefyd ar streic ar 8 Mehefin. Gan y bydd gymaint o staff y Llyfrgell ar streic, mi fydd y Llyfrgell yn gorfod cau i'r cyhoedd ar y diwrnodau yna. Dyma fydd y tro

cyntaf mewn blynyddoedd lawer i'r Llyfrgell orfod cau oherwydd streic, ond mae'n anochel oherwydd ni ellir sicrhau diogeled staff na'r cyhoedd ar y diwrnodau yna.

Bydd hyn yn effeithio ar incwm y siop a Pendinas, ac mae'r daith dywys ar gyfer 25 o aelodau Merched y Wawr ar y dydd Mercher wedi ei gohirio.

Mi fydd gwybodaeth ynglŷn â chau'r Llyfrgell yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Llyfrgell, ac mi fydd y sianeli newyddion hefyd yn rhoi sylw i'r adeiladau hynny fydd ar gau oherwydd streic genedlaethol.

Nodwyd y bydd y Llyfrgell yn agor yn ystod y penwythnos aduniad cyn myfyrwyr ddiwedd Mehefin a hefyd ddydd Sul, 4 Mehefin i groesawu côr efengyl o Alabama fydd yma ar ymweliad.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Datganiad Llywodraethiant

Dosbarthwyd y datganiad yn flaenorol i'r Ymddiriedolwyr ac aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a chafwyd adborth adeiladol ar y cynnwys. Cymeradwywyd y datganiad gan yr Ymddiriedolwyr a bydd nawr yn cael ei gynnwys yn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer yr archwiliad blynyddol.

Cadarnhaodd Emyr Evans na fydd modd arwyddo'r Cyfrifon Blynyddol ddiwedd Gorffennaf yn ôl yr arfer, a hynny oherwydd gofynion archwilio newydd yn seiliedig ar risg sy'n rhaid i Archwilio Cymru eu dilyn, a llithro yn eu hamserlen oherwydd gor-redeg ar archwiliad arall. Pwysleisiwyd bod yr oedi o ran yr archwiliad yn codi ar ochr yr archwilwyr a ddim o ochr y Llyfrgell.

3.2 Cylch Gorchwyl Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd

Gwnaeth yr Adolygiad Teilwredig sylwadau ym mis Mawrth 2020 ynglŷn â gwaith y pwyllgor yma ac nad oedd digon o waith i gyfiawnhau ei gadw.

Pan gafodd cylch gorchwyl y pwyllgorau sefydlog eu diwygio yn 2021, dewiswyd yr enw yma i'r pwyllgor uchod oherwydd pryderon ynglŷn ag ansawdd safonau gwasanaeth ac ati a diwygiwyd ei gylch gorchwyl i adlewyrchu ei gyfrifoldeb dros faterion perfformiad ac ansawdd.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth, cymerwyd penderfyniad i ail edrych ar gylch gorchwyl y pwyllgor ac i ychwanegu at ei ddyletswyddau i gynnwys materion llywodraethiant ac ychwanegu at gyfrifoldebau perfformiad.

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i gymeradwyo'r cylch gorchwyl diwygiedig a gyflwynwyd iddynt, ac i ail enwi'r pwyllgor yn Berfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant.

3.3 Dad-dderbyn a Chynllun Gweithredu Storio

Cyflwynodd Owain Roberts y papur yma yn dilyn trafodaeth ym mhwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, oedd yn amlinellu'r cefndir i'r trafodaethau, mesurau lliniaru risg, risg targed, dadansoddiad o'r mesurau lliniaru, y galw am ddeunydd ffisegol adnau cyfreithiol, cwtogi ar y ffwythiant casglu, cynllun gweithredu dad-dderbyn ac ystyriaethau eraill, megis adolygiad casgliadau ar gyfer sefydliadau cenedlaethol wedi eu noddi ac amgueddfeydd annibynnol a lleol.

Adnau cyfreithiol yw'r casgliad mwyaf ymhlith casgliadau'r Llyfrgell. Y prif fesur y mae'r Llyfrgell yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd i liniaru'r risg o ofod storio yw dad-dderbyn. Rydym yn casglu'r deunydd yma ar y cyd gyda'r llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill yn y DU, ac mae gan y Llyfrgell gyfrifoldeb penodol i gasglu deunydd Cymreig a chategoriau penodol eraill, tra bod y llyfrgelloedd eraill â chytundebau tebyg ar gyfer deunyddiau penodol. Er ei fod wedi ei drafod yn y gorffennol, nid oes bwriad gan y Llyfrgell i gyfyngu casglu i ddeunydd sydd o ddiddordeb Cymraeg a Chymreig yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu arolwg i ystyried anghenion y sector mewn perthynas â gofod ffisegol a digidol. Mae problemau capasiti yn un sy'n bodoli ar draws y sector treftadaeth ddiwylliannol, a disgwylir i'r arolwg edrych ar gyfleoedd potensial i greu model cynaliadwy ar gyfer storio casgliadau gan gynnwys datrysiadau posibl cydweithredol. Mae'r Llyfrgell wedi cychwyn darparu tystiolaeth ar gyfer yr arolwg yma, a disgwylir adroddiad ym mis Mawrth 2024.

Cytunwyd ei bod yn bwysig bod y Llyfrgell yn mynd i'r afael â'r mater yma yn fuan, yn enwedig gan fod hwn yn risg uchel, a chytunwyd i ffurfio grŵp tasg a gorffen i edrych ar gynllun hirdymor; estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd ymuno gyda'r grŵp yma, ac enwebwyd Lydia Rumsey, Andrew Evans a Quentin Howard. Bydd y grŵp yn trafod cynllun manwl ar gyfer dad-dderbyn i'w gyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Medi, a Chynllun Hir Dymor ar gyfer Storfeydd i'w chyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd.

3.4 Adroddiad Blynyddol Archwilio, Risg a Sicrwydd

Cyflwynodd Janet Wademan, Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol i'r Bwrdd gan ddiolch i'r Clerc am ei chymorth i'w baratoi. Diolchodd hefyd i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod a thu allan i gyfarfodydd y pwyllgor, a chymeradwywyd yr adroddiad gan yr aelodau.

3.5 Archwilio Cymru – Gosod Amcanion Llesiant

Rhannwyd yr adroddiad yma gyda'r Ymddiriedolwyr ond ymddiheurodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd nad oedd ymateb y sefydliad i'r adroddiad wedi ei gynnwys yn y pecyn. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Bu Derek Walker, Comisiyndd Cenedlaethua'r Dyfodol ar ymweliad â'r Llyfrgell rai wythnosau yn ôl, a bu Rhian Gibson ac Owain Roberts yn ei dywys o gwmpas yr adeilad. Cafodd weld yr Archif Ddarlledu a'r Ddeiseb Heddwch, ble roedd cyfle i ddangos sut mae'r Llyfrgell yn gweithredu'r Ddeddf yn ymarferol.

Y Llyfrgell yw'r sefydliad cyntaf i dderbyn archwiliad o'r fath, a chytunwyd bod yr adroddiad yn bositif iawn.

3.6 Cynllun Pensiwn – diweddariad

Adroddodd Lee Yale-Helms, Cadeirydd y Bwrdd Cynllun Pensiwn, fod yr adolygiad teirblwydd wedi ei gwblhau, a bod y mwyafrif o ymddiriedolwyr y Bwrdd Pensiwn wedi cytuno i ostwng y gyfradd cyfrannu i 30.1%. Cyfarfu'r Cadeirydd, cynrychiolwyr o Willis Towers Watson (WTW) a'r cyfreithwyr yn ddiweddar i drafod ail gychwyn y broses ymgynghori, a'r amserlen ar gyfer hyn fyddai deufis.

Mae'r Cadeirydd wedi trafod materion diffyg cefnogaeth weinyddol i'r cynllun yn dilyn ymadawiad James Thomas o'r Llyfrgell gyda WTW, ac mae cynnig wedi ei wneud gan WTW i gynnig gwasanaeth cyfan i reoli'r gwasanaeth buddsoddi, gwaith actiwaraidd a gweinyddol; byddai hyn yn costio tua £300k y flwyddyn i'r Llyfrgell. Petai'r Llyfrgell yn dilyn y llwybr yma, byddai James Thomas yn gweithio am rai oriau'r mis i drosglwyddo gwybodaeth i WTW.

Ategodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd bod y cynnig yma'n un doeth, gan fod angen cefnogaeth a chyngor arbenigol ar y Bwrdd Cynllun Pensiwn, ac y byddai penodi a hyfforddi aelod newydd o staff i gymeryd lle James yn mynd i gymryd amser maith; yn ogystal, mae lefelau presennol yr adran gyllid yn argyfyngus.

Nododd Lee Yale-Helms ei fod yn gwbl ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl o ddefnyddio WTW i weinyddu'r gwasanaeth cyfan, ond ar hyn o bryd, mae'r Llyfrgell mewn sefyllfa anodd heb gefnogaeth o blith y staff o gwbl yn y maes pensiwn.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i benodi WTW am flwyddyn, ac adolygu'r sefyllfa yn dilyn hynny. Mi fydd hyn yn cael ei drin fel gweithred tendr sengl o ran caffael. Mi fydd ffwythiant cyllid y Llyfrgell yn destun adolygiad yn ystod 2023/24, a bydd gwasanaeth WTW yn medru ffurfio rhan o'r adolygiad hynny.

Mi fydd Lee Yale-Helms yn cyflwyno'r cynnig yma i ymddiriedolwyr y Bwrdd Cynllun Pensiwn yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin.

Adran 4 Materion Corfforaethol

4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyfrifon Rheoli Mawrth 2023

Cyflwynwyd y cyfrifon gan Emyr Evans. Roedd diffyg cychwynnol yn y gyllideb o £1,334k ond cafodd hwn ei ddiwygio (ar ôl ein hysbysu am GiA ychwanegol) i £273k. Mae'r rhagamcan o'r diffyg terfynol ar gyfer 2022/23 yn £100k. Ategodd y Trysorydd fod hwn yn sefyllfa bositif iawn ar ddiwedd blwyddyn ariannol.

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

4.2.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Cyflwynwyd y gofrestr risg gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a diolchodd i Janet Wademan a Huw Lloyd Jones am y sylwadau a dderbyniodd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Nodwyd bod ambell wall yn ymddangos, ble mae'r gyfradd gynhenid yr un fath â'r gyfradd weddillol, a nododd y Prif Weithredwr y bydd yn edrych ar hyn ymhellach.

Gofynnodd yr aelodau i dderbyn adroddiad 6 misol gan Illtud Daniel o unrhyw fygythiadau seiber sydd wedi dod i'r amlwg.

Adran 5: Adroddiadau gan y Pwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 18.04.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Gronw Percy. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr.

5.2 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd 25.04.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Janet Wademan. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr.

5.3 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd 16.05.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Ashok Ahir. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr.

Nodwyd yr angen i gywiro enw Gronw Percy yn fersiwn Saesneg y cofnodion.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

6.1 Apwyntio Ymddiriedolwyr - diweddariad

Cafwyd diweddariad ar y broses o benodi Ymddiriedolwyr gan Manon Maragakis.

Diolchwyd i Glerc y Bwrdd am ddarparu gwybodaeth amrywedd a sgiliau'r aelodau; yn dilyn hyn, mae disgrifiad rôl yn cael ei baratoi bydd yn cael ei rannu gyda'r Llywydd. Disgwylir hysbysebu ar 20 Mehefin, a bydd y Llywydd yn cynrychioli'r aelodau ar y panel penodi. Mae'r broses o ail apwyntio un o'r Ymddiriedolwyr presennol yn aros am benderfyniad y Dirprwy Weinidog, a disgwylir iddi wneud y penderfyniad yn ystod y pythefnos nesaf.

6.2 Dyfeisiau i aelodau'r Bwrdd

Roedd Clerc y Bwrdd wedi cylchredeg neges ar e-bost ar ran Illtud Daniel i hysbysu'r aelodau y byddai'n rhaid iddynt dderbyn dyfeisiau gan y Llyfrgell cyn hir ar gyfer mynediad i bapurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion achrediad Cyber Essentials. Mynegodd nifer fawr o'r Ymddiriedolwyr anfodlonrwydd â hyn, a bydd y Clerc yn adrodd yn ôl i Illtud.

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i osod dilysu 2 ffactor (2FA) ar RiskMate gan fod hyn hefyd yn un o ofynion achrediad Cyber Essentials. Mae Illtud yn parhau mewn trafodaethau gyda'r cwmni ynglŷn â dilysu ar gyfer y rhai hynny sydd heb ffon glyfar.

6.3 Fframwaith LLywodraethiant Corfforaethol

Gofynnwyd a byddai modd diweddaru'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol i gynnwys cymal ynglŷn â sut mae penderfyniadau tu allan i gyfarfodydd arferol y Bwrdd yn cael eu gweithredu. Bydd y Clerc yn diwygio'r Fframwaith i gynnwys hyn.

6.4 S4C

Mae S4C wedi comisiynu cyfres ar y Llyfrgell fydd yn cael ei darlledu yn Ebrill 2024 - Rhannu Cyfrinach - bydd staff o'r Llyfrgell yn blaenu'r rhaglen, ble bydd enwogion yn dod i'r Llyfrgell ar daith i chwilio allan amdanynt eu hunain; nid cyfres am y Llyfrgell ei hun fydd hon.

Cyfarfod nesaf:

Rydym yn edrych i gael hwylusydd allanol i hwyluso gweithdy ar brynhawn 27 Gorffennaf yn seiliedig ar adroddiad effeithiolrwydd y Bwrdd, tra bydd cyfarfod cyffredinol y Bwrdd yn digwydd ar 28 Gorffennaf.

PWYNTIAU GWEITHREDU YN CODI O'R CYFARFOD

Eitem ar yr Agenda	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwyliedig
1.3	Rhian Gibson, Owen Llywelyn a Susan Davies i gyfarfod i drafod y strategaeth addysg	Rhian Gibson/Owen Llywelyn	Cyfarfod wedi digwydd 03.07.23
3.3	Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod storio Cynllun dad-dderbyn manwl i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyflwyno Cynllun Hir Dymor ar gyfer Storfeydd i'r Bwrdd	Owain Roberts Owain Roberts Owain Roberts	✓ Cyfarfod 29.09.23 Cyfarfod 24.11.23
3.5	Rhannu ymateb y Llyfrgell i'r adroddiad Gosod Amcanion Llesiant	Clerc y Bwrdd	Rhannwyd ar ebost 21.06.23
3.6	Cyflwyno cynnig WTW i weinyddu'r gwasanaeth i'r ymddiriedolwyr Bwrdd Cynllun Pensiwn	Lee Yale-Helms	Cyflwynwyd i'r Bwrdd Cynllun Pensiwn yn ei gyfarfod ar 22.06.23
4.2.1	Adroddiad 6 misol am fygythiadau seiber	Illtud Daniel	Cyfarfod 29.09.23
5.3	Cywiro enw Gronw Percy yn fersiwn Saesneg o'r cofnodion	Clerc y Bwrdd	✓
6.3	Diwygio'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol i adlewyrchu sut mae penderfyniadau'n cael eu cymeryd tu allan i gyfarfodydd arferol y Bwrdd	Clerc y Bwrdd	✓ Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant 18.07.23